# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 8 Ionawr 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6072

# 251

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 2 i 9. Tynnwyd cwestiwn 1 yn ôl. Cafodd cwestiynau 2 ac 8 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 3.

## 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

Dechreuodd yr eitem am 14.17

Gofynnwyd cwestiynau 1-8 a 10-11. Tynnwyd cwestiwn 9 yn ôl. Atebwyd cwestiynau 7, 10 ac 11 gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 15.12

Gofynnwyd y cwestiwn.

## 4 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.15

**Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth:**

**David Rees (Aberafan)** Yn dilyn y sylwadau a wnaed gan gadeirydd grŵp Tata Sons, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau dyfodol cynhyrchu dur yng Nghymru ym Mhort Talbot?

Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd yn dilyn penderfyniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ganslo llawdriniaethau cleifion mewnol ddydd Llun 6 Ionawr 2020 yn ysbytai Bronglais, Glangwili, ysbyty'r Tywysog Philip a Llwynhelyg?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 16.02

Gwnaeth **Russell George** ddatganiad am - Ymweliad cyntaf Knife Angel â Chymru.

## 6 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Waith y Pwyllgor

Dechreuodd yr eitem am 16.04

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Adfywio Cymunedol

Dechreuodd yr eitem am 16.52

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM7221** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at fethiant rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

2. Yn cydnabod yr angen i gyflawni, yn ymarferol, dull cydgynhyrchiol o adfywio cymunedol, gyda chyfraniad y gymuned at gyd-gynllunio a chyd-ddarparu gwasanaethau lleol.

3. Yn cydnabod yr heriau penodol y mae trefi glan môr a threfi marchnad yn eu hwynebu gyda chyfraddau uwch o siopau gwag a lefelau uwch o amddifadedd nag mewn rhannau eraill o Gymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cronfeydd trefi glan môr a threfi marchnad i gefnogi'r gwaith o adfywio mewn cymunedau ledled Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 1 | 37 | 49 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 –** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r buddsoddiad o £800m i adfywio cymunedau a chanol trefi rhwng 2014 a 2022.

2. Yn nodi'r cymorth sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i fusnesau lleol mewn trefi ledled Cymru, gan gynnwys pecyn cynhwysfawr o ryddhad ardrethi annomestig, i roi sylw i eiddo gwag ar y stryd fawr.

3. Yn cydnabod rôl bwysig Ardaloedd Gwella Busnes wrth helpu busnesau a chymunedau i gydweithio i ddarparu atebion ar lawr gwlad a helpu i adfywio eu hardaloedd lleol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 22 | 49 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM7221** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r buddsoddiad o £800m i adfywio cymunedau a chanol trefi rhwng 2014 a 2022.

2. Yn nodi'r cymorth sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i fusnesau lleol mewn trefi ledled Cymru, gan gynnwys pecyn cynhwysfawr o ryddhad ardrethi annomestig, i roi sylw i eiddo gwag ar y stryd fawr.

3. Yn cydnabod rôl bwysig Ardaloedd Gwella Busnes wrth helpu busnesau a chymunedau i gydweithio i ddarparu atebion ar lawr gwlad a helpu i adfywio eu hardaloedd lleol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 22 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 8 Dadl Plaid Cymru – Teuluoedd Incwm Isel

Dechreuodd yr eitem am 17.57

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM7224** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno taliad o £35 yr wythnos i bob plentyn mewn teuluoedd incwm isel yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 8 | 0 | 41 | 49 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu'r degawd o gyni dan Lywodraeth y DU a'i rhaglen o ddiwygiadau lles, sydd wedi arwain at gynnydd mewn tlodi plant yng Nghymru.

2. Yn nodi'r mesurau gwerth £1bn y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gosod yn eu lle i helpu teuluoedd incwm isel a threchu tlodi.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 23 | 49 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM7224** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu'r degawd o gyni dan Lywodraeth y DU a'i rhaglen o ddiwygiadau lles, sydd wedi arwain at gynnydd mewn tlodi plant yng Nghymru.

2. Yn nodi'r mesurau gwerth £1bn y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gosod yn eu lle i helpu teuluoedd incwm isel a threchu tlodi.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 22 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 9 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.51

## 10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.54

**NDM7194** Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)

Cymru Dairieithog: Y gwerth i Gymru o addysgu ieithoedd tramor modern.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.20

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 14 Ionawr 2020**